# DEDDF RHENTU CARTREFI

# (FFIOEDD ETC.) (CYMRU) 2019

---

## EXPLANATORY NOTES

### SYLWEBAETH AR YR ADRANNAU

### Rhan 7: Darpariaethau Terfynol

### *Adran 24 – Gofyniad i awdurdod tai lleol hyrwyddo ymwybyddiaeth o effaith y Ddeddf hon*

107. Mae'r adran hon yn darparu bod rhaid i awdurdod tai lleol wneud trefniadau i wybodaeth yngl#n ag effaith y Ddeddf hon fod ar gael yn gyhoeddus yn ei ardal, gan gynnwys gwybodaeth am y ffordd y gellir adennill taliad gwaharddedig a blaendal cadw.

108. Mater i bob awdurdod tai lleol fydd penderfynu ar y ffordd orau o sicrhau bod gwybodaeth ar gael, ond wrth wneud trefniadau ar gyfer hynny, rhaid i awdurdodau tai lleol roi sylw i unrhyw ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru.

### *Adran 25 - P#er i wneud darpariaeth drosiannol mewn cysylltiad â thenantiaethau sicr*

109. Mae adran 25 yn darparu y caiff rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru wneud darpariaeth i'r Ddeddf fod yn gymwys mewn perthynas â thenantiaeth sicr (gan gynnwys tenantiaeth fyrddaliadol sicr) o dan Ddeddf Tai 1988.

110. Mae adran 239 o Ddeddf 2016 yn darparu ar gyfer diddymu tenantiaethau sicr mewn perthynas ag unrhyw anheddau y mae'r Ddeddf yn gymwys iddynt (mae adran 246 o Ddeddf 2016 yn rhoi ystyr "annedd" yn y cyd-destun hwn). Nid oedd prif ddarpariaethau Deddf 2016 mewn grym pan gafodd y Ddeddf hon y Cydsyniad Brenhinol.

111. Byddai rheoliadau o dan yr adran hon yn caniatáu i ddarpariaeth gael ei gwneud i gymhwyso'r Ddeddf i denantiaethau byrddaliadol sicr o dan Ddeddf 1988, nes bod tenantiaethau sicr yn cael eu diddymu o dan Ddeddf 2016.

### *Adran 26 – Troseddau gan gyrff corfforaethol*

112. Pan fo corff corfforaethol (cwmni cyfyngedig, er enghraifft) yn cyflawni trosedd o dan y Ddeddf, mae adran 26 yn darparu y caiff "uwch-swyddog" i'r cwmni, neu berson sy'n honni ei fod yn uwch swyddog i'r cwmni, hefyd fod yn agored i gael ei erlyn am y drosedd, yn yr amgylchiadau a ddisgrifir yn is-adran (1).

### *Adrannau 27-30 – Rheoliadau, dehongli, cymhwyso i'r Goron a dod i rym*

113. Mae adran 27 yn gwneud darpariaeth ynghylch materion gweithdrefnol sy'n berthnasol i wneud rheoliadau o dan y Ddeddf. Mae hefyd yn disgrifio'r ddarpariaeth ategol (darpariaeth atodol, gysylltiedig, ganlyniadol, drosiannol, ddarfodol neu arbed) y caniateir ei gwneud mewn rheoliadau o dan y Ddeddf.

114. Mae adran 28 yn nodi’r termau diffiniedig a ddefnyddir yn y Ddeddf.

115. Mae adran 29 yn darparu bod y Ddeddf yn gymwys i’r Goron, ond mae’n pennu na fydd y Goron yn atebol o dan gyfraith trosedd am unrhyw drosedd o dan y Ddeddf. Yn hytrach, mewn achos pan fo’r Goron yn torri darpariaeth a wneir gan neu o dan y Ddeddf, caiff yr Uchel Lys ddatgan bod y weithred neu’r anweithred yn anghyfreithlon.

116. Mae adran 30 yn nodi’r darpariaethau a ddaw i rym drannoeth y diwrnod y mae’r Ddeddf yn cael y Cydsyniad Brenhinol (yr adran hon a’r adran ganlynol sy’n ymdrin ag enw byr y Ddeddf) ac mae’n darparu y bydd gweddill darpariaethau’r Ddeddf yn dod i rym drwy orchymyn cychwyn a wneir gan Weinidogion Cymru.